# DEDDF SEILWAITH (CYMRU) 2024

## EXPLANATORY NOTES

### CRYNODEB A’R CEFNDIR

2. Mae’r Ddeddf yn diwygio sut y rhoddir cydsyniad i seilwaith yng Nghymru. Mae’n sefydlu proses cydsynio seilwaith unedig o’r enw Cydsyniad Seilwaith ar gyfer mathau penodedig o seilwaith mawr ar y tir ac ar y môr, o’r enw Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol. Mae’r rhain, ar y cyfan, yn brosiectau ynni, prosiectau trafnidiaeth, prosiectau trin gwastraff, prosiectau d#r a phrosiectau nwy. Mae’r Cydsyniad Seilwaith yn disodli, naill ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol, nifer o gyfundrefnau statudol presennol ar gyfer cydsynio i Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol, ac mae’n rhesymoli nifer yr awdurdodiadau sy’n ofynnol i adeiladu a gweithredu Prosiect Seilwaith Arwyddocaol mewn un cydsyniad.

3. Cyhoeddwyd papur ymgynghori, *Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru*, ar 30 Ebrill 2018 sy’n nodi prif egwyddorion y Ddeddf. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Gorffennaf 2018 a chyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i’r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2018[1]. Defnyddiwyd yr ymatebion i’r ymgynghoriad i lywio datblygiad y Ddeddf.

4. Mae’r Ddeddf yn cynnwys 148 o adrannau sydd wedi eu trefnu’n 9 Rhan, a 3 Atodlen.

---

**1** Newidiadau i gymeradwyo gwaith datblygu'r seilwaith | LLYW.CYMRU.